Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

17 Mai 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Cyfeiriad Strategol Polisi Amaethyddol a gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Papur B B 17.18** |
| **Noddwyd y Papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y Papur gan:** | **Robert Vaughan a Brian Pawson** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Rhoi sylwadau ar y materion a godir, yn ogystal â chefnogi'r dull cyffredinol a chynghori ar y camau nesaf. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y <u>tymor hir</u>:** Mae'r diweddariad hwn yn nodi'r camau arfaethedig nesaf wrth inni weithio mewn partneriaeth i gyflawni gwelliannau o ran ansawdd dŵr a rheoli tir ledled Cymru. Bydd yn llywio ein cynllun corfforaethol a'n cynllun busnes, a bydd yn dylanwadu ar gynlluniau'r llywodraeth a'r sector rheoli tir.<br><br>**Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>:** Arweinir y gwaith hwn gan bartneriaeth gref sy'n datblygu rhwng sefydliadau ar draws y sector rheoli tir.<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** Mae amrediad eang o sefydliadau amaethyddol yn rhan o'r gwaith, ynghyd â chynrychiolaeth gan y sectorau dŵr a genweirio. Yn achos is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, caiff yr aelodaeth ei hadolygu i sicrhau bod y rhaglen waith barhaus yn adlewyrchu'n briodol y rheiny sy'n chwarae rôl allweddol.<br><br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>:** Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ddod â'r rheiny sydd â rôl allweddol at ei gilydd i fynd i'r afael â phob ymagwedd ar effaith llygredd amaethyddol ar |

| | |
|---|---|
| | ddŵr. Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymddiriedaeth a pherthynas waith agos.<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag codi:** Mae gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn canolbwyntio'n llwyr ar gael gwared ar lygredd amaethyddol o'n hafonydd, ein nentydd a'n dŵr daear, p'un a yw'n codi o ddigwyddiadau llygredd yn y tarddle neu o lygredd gwasgaredig ar dir. |

## Y broblem/mater

Mae canlyniad refferendwm yr UE, ynghyd â'r fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru, wedi rhoi cyfle unigryw i ailffurfio polisi amaethyddol Cymru. Bydd hyn yn golygu canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac, ar yr un pryd, darparu rhesymeg economaidd newydd i reolwyr tir. Enghraifft gynnar o'r dull newydd yw is-grŵp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae'n bartneriaeth unigryw a helaeth, sy'n gweithio yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a chanddi'r uchelgais o gael gwared ar lygredd amaethyddol ledled Cymru. Gofynnir i'r bwrdd roi sylwadau ynglŷn â'r cyd-destun a'r dull cyffredinol trwy gefnogi gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a rôl barhaus Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Cefndir

Mae cynllun corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru am sicrhau y caiff tir a dŵr yng Nghymru eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig. Yn yr hirdymor, rydym yn rhagweld y bydd Cymru'n cael ei rheoli trwy gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd ffermio, coedwigaeth a physgodfeydd yn cael eu hystyried fel cyfangorff, fel bod buddion llesiant yn cael eu huchafu. Mae dalgylchoedd dŵr yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, o'u tarddiad i'r môr. Bydd ansawdd a chyfaint dŵr yn gwella a bydd priddoedd yn cael eu hamddiffyn fel y byddant yn gallu storio carbon a pharhau i fod yn gynhyrchiol. Bydd tirfeddianwyr, busnesau a sefydliadau yn cydweithio fel rhan o ecosystemau gwytnach trwy fabwysiadu dull cydgysylltiedig o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd cymorth grant a mecanweithiau cymorth yn cael eu hintegreiddio fel y caiff y defnydd cynaliadwy gorau ei wneud o unrhyw ardal benodol.

Mae Fforwm Rheoli Tir Cymru yn darparu mecanwaith y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei weithredu ar lefel strategol ac yn rheolaidd gyda'r sefydliadau hynny y mae gan eu haelodau unigol rôl uniongyrchol o ran rheoli tir.

O ganlyniad i argymhellion y Strategaeth Ddŵr i Gymru, sefydlodd Fforwm Rheoli Tir Cymru is-grŵp ar wahân ym mis Ionawr 2017 er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA), Dŵr Cymru, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru (TFA), Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (CFF), a Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu'r cadeirydd a'r ysgrifenyddiaeth ynghyd â chymorth technegol a pholisi ychwanegol. Mae gan y grŵp statws annibynnol ac mae posibilrwydd nad yw'r sylwadau a fynegwyd yn yr adroddiad cynnydd, a gafodd ei

baratoi a'i gytuno arno'n ddiweddar, yn adlewyrchu, o reidrwydd, safbwyntiau'r sefydliadau partner a gynrychiolir.

Wrth wraidd gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru, mae'r datblygiad o ddealltwriaeth gilyddol ar achosion gwraidd llygredd amaethyddol. Roedd y dull hwn yn rhagflaenu'r gwaith o adnabod amrediad o ddulliau sy'n gallu gyrru'r gwelliannau amgylcheddol angenrheidiol.

Yn ganolog i waith diweddar Fforwm Rheoli Tir Cymru oedd y datganiad[1] a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar 13 Rhagfyr 2017:
*"Rwyf o blaid cyflwyno dull cenedlaethol i ymdrin â llygredd nitradau sy'n deillio o waith amaethyddol. Dros y misoedd nesaf, byddaf yn gweithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid i daro'r cydbwysedd cywir rhwng mesurau rheoleiddiol, mentrau gwirfoddol a buddsoddiad. Rwy'n bwriadu edrych ar opsiynau er mwyn medru rhoi hyblygrwydd i reolwyr tir, lle y byddai'r opsiynau hynny yn arwain at yr un canlyniad neu ganlyniadau gwell na dull rheoleiddiol."*

Darperir cyd-destun llawer mwy eang trwy bum egwyddor allweddol [2] Ysgrifennydd y Cabinet ar reoli tir yng Nghymru ar ôl gadael yr UE:

- Mae'n rhaid inni gadw ein rheolwyr tir ar y tir. Dyma sydd orau i'n tir, ein cymunedau a'n heconomi wledig.
- Mae cynhyrchu bwyd yn dal i fod yn hanfodol. Lle bo cynhyrchu cynaliadwy ac economaidd yn bosibl, byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu i helpu ein ffermwyr i gystadlu mewn marchnad fyd-eang. Ni ddylwn orfod dewis rhwng cynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus. Er nad yw cynhyrchu bwyd yn nwydd cyhoeddus fel y cyfryw, nid oes rheswm pam na allai'r un fferm gynhyrchu'r ddau beth.
- Dylai'r system gefnogi newydd ganolbwyntio ar helpu tir Cymru i ddarparu nwyddau cyhoeddus ar gyfer y holl bobl yng Nghymru.
- Mae'n rhaid i bob rheolwr tir gael y cyfle i gael mynediad at gymorth a pharhau i wneud bywoliaeth o'r tir. Ond ni all fod taliad awtomatig a chynhwysol – bydd yn rhaid i reolwyr tir wneud pethau gwahanol er mwyn ennyn cefnogaeth. Mae hyn yn hanfodol i ddiogelu'r diwydiant.
- Mae'n rhaid i'n sector amaethyddol fod yn ffyniannus ac yn gadarn mewn dyfodol heb yr UE. Er bod Cynllun y Taliad Sylfaenol yn darparu cymorth pwysig i nifer o'n ffermwyr, ni fydd yn ein helpu i wrthsefyll y newidiadau a ddaw yn sgil ymadael â'r UE. Mae angen darparu cymorth mewn ffordd wahanol.

Mae'r egwyddorion hyn yn awgrymu newid sylweddol a bydd angen trosiant sydd wedi'i gynllunio'n dda dros sawl blwyddyn. Gyda chefnogaeth Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet, mae grwpiau gweithio amlranddeiliaid wedi'u sefydlu er

[1] https://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2017/NVZConsultation/?lang=cy

[2] https://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2018/landmanagement/?skip=1&lang=cy

mwyn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r egwyddorion. Fel rhan o'r broses hon, bydd gweithgor y Grŵp Defnydd Tir (lle y mae dau aelod o'r tîm Defnydd Tir Cynaliadwy yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru) yn ystyried y canlynol:

(i) y paramedrau cynllunio ar gyfer y cynllun nwyddau cyhoeddus
(ii) natur a graddau'r nwyddau cyhoeddus unigol y gellid talu amdanynt, yn ogystal â'r gwerthoedd y gellir rhoi iddynt

O ganlyniad i argymhellion blaenorol Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ymchwilio i'r potensial ar gyfer datblygu rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd ar gyfer y sector bwyd-amaeth. Byddai'r cysyniad 'Brand Cymru', a gadarnhawyd trwy asesiadau cadarn o arferion ffermio, yn cael ei yrru gan weledigaeth o safonau cynaliadwyedd ehangach a thra amgylcheddol, gan adeiladu ar y gyfran marchnad trwy feddu ar enw da wedi'i seilio ar dystiolaeth am gynhyrchu bwyd i safonau amgylcheddol blaengar, yn ogystal â safonau iechyd a llesiant anifeiliaid. Mae staff ac aelodau o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rhan o'r gwaith hwn, sy'n adeiladu ar y mentrau yr ymgymerwyd â nhw ynghynt fel rhan o ymyriadau ar raddfa tirwedd 3Keel, a'r gweithdai Efyrnwy a gynhelir gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, y sector ffermio, y trydydd sector a chynhyrchwyr bwyd.

## Asesiad

Darparwyd adroddiad interim ar waith yr is-grŵp i Ysgrifennydd y Cabinet ar ddechrau mis Ebrill 2018. Mae cyfanswm o 45 o argymhellion yn rhychwantu'r pum ffrwd waith a fabwysiadwyd gan y grŵp:

- Sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddiol ffurfiol yn ddigon cadarn i gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol
- Datblygu dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr mewn perthynas â rheoli maetholion
- Darparu cyngor ac arweiniad gwell y gall ffermwyr eu gweithredu
- Gwella'r amrediad o gyfleoedd buddsoddi sydd eisoes yn bodoli
- Nodi a hyrwyddo arloesedd

Cyflwynir crynodeb o argymhellion Fforwm Rheoli Tir Cymru yn Atodiad 1. Mae pob un o'r rhain, sy'n amrywio o'r strategol i'r ymarferol, yn gofyn am waith, adnoddau ac ymroddiad pellach gan bob partner cysylltiedig. Bydd cynnydd parhaus a chydgysylltiedig ar draws y pum ffrwd waith yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r amrediad cymhleth o faterion sy'n achosi'r lefelau presennol o lygredd amaethyddol ledled Cymru. Nid oes ffordd hawdd o ddatrys hyn, ac mae angen i bob cais gael ei ystyried fel rhan o becyn integredig.

Mae'n ffordd newydd iawn o weithio sy'n gydweithredol iawn, ac mae'n golygu cymryd cyfrifoldeb dros broblem sydd i'w gweld yn anodd ei thrin a chydnabod y bydd angen newid sylweddol o ran agwedd a dull os ydym am lwyddo.

## Argymhellion

Gofynnir i aelodau o'r bwrdd ystyried y canlynol:

- Darparu sylwadau ar gyfeiriad cyffredinol y gwaith a ddisgrifiwyd

- Cefnogi is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol wrth iddo weithredu cam nesaf ei raglen waith
- Cefnogi'r gwaith o gymhwyso argymhellion is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru trwy gynorthwyo â sesiynau ymgysylltu ehangach gyda Llywodraeth Cymru a chyrff anllywodraethol, yn ogystal â gweithdai ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru

Mewn perthynas â'r pwynt bwled olaf uchod, mae cysylltiadau eisoes wedi'u gwneud yn fewnol rhwng staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio ar ddefnydd tir, ansawdd dŵr, ansawdd aer, pysgodfeydd a rheoliadau'r dyfodol, yn ogystal â rhwng y cyfarwyddiaethau Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Gweithrediadau.

**<u>Risgiau allweddol</u>**

Bydd datblygiad rhaglen waith Fforwm Rheoli Tir Cymru a’r goblygiadau dilynol o ran anodau yn cael eu pennu gan ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'r adroddiad interim. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi y gellir disgwyl ymateb yn fuan.

**<u>Goblygiadau ariannol</u>**

Mae goblygiadau adnoddau sylweddol yn wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal ag ar gyfer partneriaid eraill o fewn is-grŵp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru.  Bydd angen i staff ac adnoddau ariannol wneud y canlynol:

- gwasanaethu'r grŵp a datblygu’r rhaglen waith ar draws y pum ffrwd waith
- casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ategu'r rhaglen waith
- codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y sector anllywodraethol a chynhyrchwyr o’r dull newydd hwn o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol
- mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n ymwneud â dull personol Cyfoeth Naturiol Cymru o gyflawni a gweithredu ffyrdd newydd o weithio
- sicrhau y gellir cynnal cynnydd digonol er mwyn cadw ymgysylltiad ar draws yr holl sectorau cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi darparu cyllid ychwanegol o dan y rhaglen "Beichiau Heb eu Hariannu" i wasanaethu gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae angen ei wario cyn Gorffennaf 2019. Mae dau aelod o staff rhan-amser (cyfwerth ag ychydig mwy nag un aelod o staff amser llawn) eisoes wedi'u recriwtio ac mae nifer o brosiectau ymchwil perthnasol, sy'n deillio o'r adroddiad interim, yn cael eu harchwilio.

Defnyddir dyraniad Beichiau Heb eu Hariannu ychwanegol i sicrhau y gellir rhoi rhagor o gyngor ar lygredd amaethyddol i ffermwyr. Bydd yr aelodau perthnasol o staff yn cael eu gosod o fewn timau lleol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae argymhellion Fforwm Rheoli Tir Cymru mewn perthynas â'r fenter wirfoddol a arweinir gan ffermwyr yn cael eu gweithredu trwy wneud cais am gyllid partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff hyn ei arwain gan NFU Cymru gyda chefnogaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru a Dŵr Cymru.

**<u>Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb</u>**

Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb amlwg sy'n codi o'r gwaith hwn.